

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 10fed o Chwefror 2015.

Yn bresennol oedd y Cyngorydd Iwan Lloyd Williams, Barry Bracegirdle, Menna Williams, Justin Davies – Penygroes; OP Huws, Gwyndaf Roberts, Hefina MW Roberts – Llanllyfni; Ffion Jones – Nantlle; Eurig W Evans – Nebo; Harry W Owen, Sharon W Jones, D Martin Williams – Talysarn.

Cynllunio.

*Creu estyniad unllawr cefn – Goleufryn, 6 Ffordd yr Orsaf, Penygroes – caniatâu.

*Cyfnewid cyfleusterau lloches anifeiliaid presennol gyda cyfleusterau nwydd i gynnwys derbynfa, cybiau cwn, cybiau cathod, manau parcio, ceubwll a chyfleusterau cysylltiedig – Bryn Melyn, Nasareth – gwrthod.

*Cais am ddiwygiadau ansylweddol ar gyfer codi simdde ar dy llain 2 a ganiatawyd o dan cyfeirnod – Plot 2, Cae Capel Bach, Penygroes - caniatâu.

Gohebiaeth.

Cyngor Gwynedd

*Ymatebion. Bin newydd wedi ei leoli yn Talysarn yn lle'r un oedd wedi torri; Parhau i ymholi am bwy sydd yn gyfrifol am glirio'r coed sy'n amharu ar linell ffon Trem yr Wyddfa.

*Derbyniwyd copi o Rhbudd Cyngor Gwynedd (ail rybudd) – gwaharddiad traffic dros dro Ffordd yr Orsaf, Talysarn.

Materion Pentrefi.

Talysarn Byddwn yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i'w hysbysu bod golwg wrth y parc sglefrio, a gofyn wrthynt roi'r llwybr yn ol fel ag yr oedd o.

Llanllyfni – Baw cwn yn broblem (yn Nebo, Penygroes, Tyrpeg Talysarn hefyd). Byddwn yn gofyn i'r sywddog wneud ymgyrch i'r Dyffryn am fis, ac yn edrych i mewn i greu taflen arbennig a'u dosbarthu i bob ty. Byddwn yn gofyn i'r Cyngor os oes cymorth ar gael e.e. arian grant, ac yn gwahodd Peter Simpson i gyfarfod y Cyngor; Tyllau yn y ffordd ger Pont Crychddwr; Tipio slei bach wrth y gilffordd heb ei glirio; Dau arwydd "No Through Road" wedi eu troi wrth Berth.

Penygroes Ceir yn parcio ger y Co-op yn parhau i fod yn broblem – hysbyswyd y Cyngor o ddamwain a oedd wedi digwydd yno yn ddiweddar. Byddwn yn gofyn i Colin Jones (Cyngor Gwynedd) ddod i gyfarfod i'n diweddar am y sefyllfa barcio ym Mhenygroes; Byddwn yn hysbysu Cyngor Gwynedd o'r canlynol: tyllau yn y lon ar y gylchfan. Twll yn y lon wrth 80 Trem yr Wyddfa, a'r cyrbs angen sylw.

Nantlle Byddwn yn gofyn am fin baw ci i'r pentref – baw cwn yn cael ei roi yn bin y cae chwarae.

Materion yn ymwed a'r heddlu. To lloches bws Penygroes wedi ei falu – byddwn yn gofyn wrth yr heddlu i gadw llygad.

Ceisiadau am Arian

Trafodwyd y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Cyngor dros y flwyddyn ariannol hon, a phenderfynwyd fel a ganlyn: Papur Bro Lleu £200; Neuadd Goffa Llanllyfni £200; Grwp Pel Droed Dyffryn Nantlle £100; Pwyllgor Mynwent Tai Duon £50; Eisteddfod Gadeiriol Llanllyfni £100; Pwyllgor Ardal Nebo £100; Clwb Pel Droed Talysarn Celts £100; Trealon Cwn Defaid Llanllyfni £50; Cymdeithas Garddio Dyffryn Nantlle £50; Cymdeithas Hanes Dyffryn Nantlle £50.